Craffu ar ddefnydd ALlau o gytundebau cyfaddawdu
11 Hydref 2013

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 7 Hydref 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a nodwyd yn eich neges e-bost dyddiedig 3 Hydref 2013, yn gofyn am y canlynol:

A fyddech cystal â chadarnhau a yw SAC wedi craffu ar unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru mewn perthynas â'i ddefnydd o gytundebau cyfaddawdu er mwyn sicrhau ymadawiadau staff a'r arian a ddefnyddiwyd i ariannu'r trefniadau hyn.

Nodwch enw unrhyw awdurdod lleol a archwiliwyd, dyddiad yr archwiliad a chrynodeb o unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd.

Nid oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru) wybodaeth gofnodedig sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais oherwydd nid ydym wedi craffu ar ddefnydd awdurdod lleol o gytundebau cyfaddawdu fel y cyfryw. Efallai bod archwilydd penodedig awdurdodau lleol yng Nghymru wedi edrych ar rai cytundebau cyfaddawdu unigol wrth archwilio datgeliadau cyfrifon awdurdodau lleol penodol, ond nid yw wedi craffu ar ddefnydd ehangach awdurdodau lleol o gytundebau o'r fath. Dylwn egluro y caiff yr archwilydd penodedig ei benodi gan yr Archwilydd Cyffredinol, ond mae'n ddeiliad swydd ar wahân, sy'n meddu ar ei swyddogaethau statudol ei hun. Yn ogystal â bod yn unigolyn ar wahân yn gyfreithiol, nid yw'r archwilydd penodedig yn awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Felly, nid oes hawl gennych i weld gwybodaeth a ddelir gan yr archwilydd penodedig; caiff gwybodaeth ei datgelu yn ôl disgresiwn ac yn unol â'r cyfyngiadau ar ddatgelu a ddarperir gan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr wyf wedi ymdrîn â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips